

CYNGOR CYMUNED YSTRAD MEURIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod Nos Iau, 4 Hydref 2018 yn Neuadd Eglwys Gwnnws *Minutes of meeting held Thursday, 4 October 2018 at Gwnnws Church Hall*

Yn bresennol / Present:, Rhodri Davies, Thomas Jones, Tomos Jones, Siarl Owen, Sarah Jones, David M Jones a John Evans, Heddlu Dyfed Powys Police.

Ymddiheurio / Apologies: Wyn Evans.

Derbyniwyd cofnodion 28 Mehefin 2018 fel rhai cywir. *The minutes of meeting held 28th June 2018 were received as a correct record.*

Materion yn codi/Matters arising.

1. **Gwefan** – roedd y Clerc mewn ymgynghoriad a Chris Jones, Ystrad Meurig i ail greu'r wefan. Gobeithir y bydd draft yn barod i'r cyfarfod nesaf. Clerk was in consultation with Chris Jones, Ystrad Meurig in regards to re-creating the website, hopefully a draft will be ready for the next meeting.
2. **Defibrillator** – derbyniwyd llythyr oddi wrth y Gymdeithas yn nodi y byddent hwy yn parhau i gymryd gofal am y "defibrillator" am y tro. Ceir ar ddeall bod y blwch ffôn wedi ei symud o'r pentref erbyn hyn. *A letter was received from the Gymdeithas noting that they would continue to be responsible for the "defibrillator" for the time being. It is also understood that the phonebox has been removed from the village.*
3. **Japanese Knott Weed** – roedd y Clerc wedi cael addewid y byddai'r gwaith o waredu'r Knott Weed yn parhau yn yr Hydref. Wedi i hyn gymryd lle cafwyd addewid gan y Cyng. D M Jones i dorri gwair y parc. *The Clerk had received confirmation that the work of spraying the Knott Weed would continue in the Autumn. Councillor D M Jones noted that the grass in the park would be cut.*
4. **Sedd Wag** – dim pellach i adrodd / Vacant Position – nothing further to report.
5. **Biniau** – nodwyd na fu i'r lorri biniau fynd o gwmpas yr heolydd cefn et oar 21 na 29 Medi 2018, roedd hyn yn effeithio fwyaf ar ardaloedd Swyddffynnon a Tynygraig. Mae'r mater wedi ei drosglwyddo i ddwylo'r Cyng. Sir Ifan Davies. *It is understood that the refuse lorry which travels on the secondary roads around Swyddffynnon and Tynygraig had not been seen on 21 and 29 September 2018. The matter has been drawn to the attention of County Councillor Ifan Davies.*

Gohebiaeth / Correspondence

1. **Sul y Cofio:** cynhelir gwasanaeth wrth y gof golofn yn Swyddffynnon am 1.00 o'r gloch, 11 Tachwedd 2018. A service will be held at the monument, Swyddffynnon, 1.00pm, 11 November 2018.
2. Un Llais Cymru – cytunwyd mae'r Cadeirydd, Rhodri Davies fydd yn ein cynrychioli ar y Pwyllgor. Cynhaliwyd y cyfarfodydd diwethaf, 18 Gorffennaf a 25 Medi 2018 yn Aberaeron. Once Voice Wales – it was agreed that the Chairman, Rhodri Davies would represent us on the meeting. Latest meetings had been held on 18 July and 25 September 2018 at Aberaeron.
3. **CSC Pwyllgor Rheoli Datblygu** – derbyniwyd agenda a phapurau cyfarfod 11 Gorffennaf, 8 Awst a 12 Medi 2018. **CCC Development Control Committee** – agenda and papers for the meeting 11 July, 8 August and 12 September 2018 were received.
4. **CCC / CSC = Praesept** - cafwyd taliad o £650;28 ar 31 Gorffennaf 2018. *A payment of £650.28 was received on 31 July 2018.*
5. Barclays 30/07/2018 = £2,086.01
6. Barclays 28/09/2018 = £2,686.29

7. **Grant Thornton:** Derbyniwyd cadarnhad o adroddiad llwyddiannus ar gyfer ein archwiliad 2017-2018. Confirmation of a satisfactory audit report was received for the year 2017-2018.
8. **Cais Cynllunio / Planning Application A180876** – Estyniad a ffenestri newydd i Trefriw-Fach, Tynygraig – dim gwrthwyneid. *Extension and new windows to Trefriw-Fach, Tynygraig – no objection.*
9. **HM Revenue & Customs** – derbyniwyd gwybodaeth yn nodi manylion y gwasanaeth newydd ar-lein. *Information was received regarding the new on-line service.*